

Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu

Rhagfyr

12

Nodiadau o'r 7fed cyfarfod, a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom.



Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Sam Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Aled Blake** - Anabledd Dysgu Cymru
- **Angela Kenvyn** - Engage to Change
- **Ashleigh Francis** – Bridges Centre
- **Darren Smith**
- **Grace Coppock** – Fforwm Cymru Gyfan
- **Ishbel Hansen** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe
- **Julian Hallet** – Cymdeithas Syndrom Down (Cymru)
- **Kai Jones** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Kirsten Jones** – Natspec

- **Marg McNeill** – See Around Britain
- **Marie Gibson**
- **Nicky Williams** - Rhiant
- **Simon Rose** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Sion Jones** – Mencap Cymru
- **Victoria Hughes** - Rhiant
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **Zoe Richards** – Anabledd Dysgu Cymru



Pobl a ddywedodd nad oeddwn nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- **Humie Webb** - Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Anabledd Dysgu

Gwybodaeth am y ddogfen hon



Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen hon. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las trwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ynghylch pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar **dudalen 15**.

1. Croeso a chyflwyniadau



Croesawodd **Sioned Williams**, Aelod o'r Senedd a **Chadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol, bawb i'r cyfarfod.

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Mae **Sara Pickard** yn gweithio i Mencap Cymru ac yn gyd-Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol.



Yr **ysgrifennydd** yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir **cyd-ysgrifenyddion** pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr **ysgrifennydd**.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Sioned a Sara.

2. Addysg arbenigol ar ôl 16 oed



Mae **Kirsten Jones** yn gweithio i **Natspec**.

Mae **Natspec** yn sefydliad sy'n cynrychioli darparwyr addysg arbenigol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau dysgu.



Soniodd Kirsten am rai o'r problemau y mae pobl ifanc ag anabledd dysgu yn eu cael wrth geisio dod o hyd i'r cwrs coleg cywir ar ôl 16 oed.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn newid y ffordd y gall pobl ifanc ag anabledd dysgu fynd ar gwrs coleg ar ôl 16 oed.

Mae'r newidiadau hyn yn rhan o'r gyfraith newydd ar gyfer **Anghenion Dysgu Ychwanegol** a rheolau ar gyfer addysg yng Nghymru.




Anghenion Dysgu Ychwanegol neu **ADY** yw'r enw newydd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig neu AAA yng Nghymru.



Coleg

Ar ôl 16 oed, gall pobl ifanc ddewis mynd i goleg addysg bellach neu addysg bellach i astudio.



Mae yna wahanol fathau o golegau addysg bellach:

- Colegau addysg bellach lleol sydd â llawer o wahanol gyrsiau ar gyfer pobl ifanc sy'n byw yn yr ardal leol.

Mae hyn yn cynnwys cyrsiau i bobl ifanc gyda neu heb **anghenion dysgu**



ychwanegol. Er enghraifft, sgiliau byw'n annibynnol neu arlwyo.

- Colegau addysg bellach arbenigol sydd â chysiau arbennig ar gyfer pobl ifanc ag **anghenion dysgu ychwanegol**, fel anabledd dysgu neu awtistiaeth.




Mae rhai o'r newidiadau newydd yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl ifanc ag anabledd dysgu gael y cwrs coleg cywir ar gyfer eu hanghenion.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyn hynny, roedd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a allai person ifanc fynd i goleg addysg bellach arbenigol.



Nawr, mae awdurdodau lleol yn penderfynu a ddylai person ifanc ag anabledd dysgu fynd i'w goleg lleol neu goleg arbenigol.



Dim ond am 2 flynedd y caniateir i bobl ifanc dros 16 oed wneud cwrs am ddim.

Onid mae angen mwy na 2 flynedd ar lawer o bobl ifanc ag anabledd dysgu.



Nid yw'n glir ychwaith a yw'r 2 flynedd yn golygu:

- 2 flynedd ar ôl 16 oed neu
- 2 flynedd ar ôl iddynt orffen yr ysgol.



Mae hyn yn bwysig oherwydd nid yw llawer o bobl ifanc ag anabledd dysgu yn gorffen ysgol nes eu bod yn 19 oed.



Mae hyn yn golygu bod rhai awdurdodau lleol yn bwriadu symud rhai pobl ifanc ag anabledd dysgu yn syth o'r ysgol i wasanaethau dydd.



Mae Natspec a rhai sefydliadau eraill yn poeni y bydd y newidiadau hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl ifanc ag anabledd dysgu wneud y cyrsiau cywir a chael y sgiliau cywir.

3. Problemau wrth ddod o hyd i'r cyrsiau coleg cywir



Mae **Victoria Hughes** a **Nicky Powell** yn rhieni i ddynion ifanc â Syndrom Down. Enw eu meibion yw Dylan.



Yn y dyfodol, mae'r ddau Dylan eisiau cael swyddi a byw'n annibynnol.



Ar ôl gorffen yn yr ysgol, roedden nhw eisiau gwneud cyrsiau a fyddai'n eu helpu i gael swyddi a byw'n annibynnol.



Dechreuodd Victoria a Nicky chwilio am gyrsiau i'w meibion cyn iddynt orffen yn yr ysgol.



Nid oedd y cyrsiau yn eu colegau lleol yn addas ar gyfer y 2 Dylan. Ni allent roi'r cymorth yr oedd ei angen arnynt na'u helpu i gael y sgiliau cywir.



Dechreuodd Victoria a Nicky edrych ar golegau arbenigol ar gyfer eu meibion.



Nid oedd rhai o'r cyrsiau hyn yn addas iddynt ychwaith. Roedd 1 coleg ar gyfer pobl awtistig, nid pobl ag anabledd dysgu.



Roedd y 2 Dylan eisiau mynd i goleg lle gallent fyw yno yn ystod y tymor a dysgu sut i fyw'n annibynnol.



Yn y pen draw, daeth Victoria a Nicky o hyd i goleg **preswyl** arbenigol a oedd yn ymddangos yn iawn i'w meibion.

Mae **Preswyl** yn golygu eich bod yn aros neu'n byw yno.



Doedd y teuluoedd ddim yn cael dechrau gwneud cais am gyrsiau coleg nes bod eu meibion yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol.



Cymerodd amser hir i wneud y cais a chael penderfyniad ynghylch a allent gael yr arian ar gyfer y cyrsiau yr oeddent am eu gwneud.



Erbyn iddynt gael gwybod o'r diwedd y gallent wneud y cyrsiau yr oeddent eu heisiau, roeddent eisoes wedi colli'r tymor cyntaf.



Penderfynodd 1 Dylan ddechrau'r cwrs yn syth, er ei fod wedi colli'r tymor cyntaf.




Penderfynodd y Dylan arall aros tan y flwyddyn nesaf i ddechrau ei gwrs o'r dechrau.



Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r ddau ohonyn nhw ar y dechrau. Ond erbyn hyn maen nhw wir yn mwynhau eu cyrsiau ac yn byw yn y coleg yn ystod y tymor.



Dywedodd Victoria a Nicky fod gwneud cais am y cyrsiau iawn i'w meibion yn anodd iawn ac yn cymryd amser hir.



Dywedon nhw y dylai fod yn haws dod o hyd i'r cyrsiau iawn i bobl ifanc ag anabledd dysgu i ddiwallu eu hanghenion.



Nid oeddent yn teimlo bod pobl bob amser yn gwrando arnynt pan oeddent yn ceisio egluro beth oedd ei angen ar eu meibion.



Ac nid oeddent yn teimlo y gofynnwyd i'w meibion beth yr oeddent ei eisiau na beth oedd yn bwysig iddynt yn ddigon aml.



Fe ddywedon nhw hefyd y dylai teuluoedd allu dechrau gwneud cais yn gynt o lawer er mwyn sicrhau bod digon o amser cyn i'r cyrsiau ddechrau.



Mae symud o ysgol i goleg yn gallu bod yn anodd iawn i bobl ifanc ag anabledd dysgu.



Mae angen amser arnynt i gael gwybod am y coleg newydd a sut le fydd.



Efallai y bydd angen iddynt ymweld â'r coleg ychydig o weithiau a chwrdd â'r staff a myfyrwyr eraill cyn iddynt deimlo'n barod i ddechrau eu cwrs.



Dyma pam ei bod yn bwysig bod digon o amser i bobl ifanc ddod o hyd i'r cwrs iawn, gwneud cais a chael penderfyniad cyn i'r cwrs ddechrau.



Rhaid gofyn bob amser i bobl ifanc beth maen nhw ei eisiau a beth sy'n bwysig iddyn nhw cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

4. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau.



Dywedodd **Wayne Crocker** y gallai'r grŵp ysgrifennu at y Grŵp Trawsbleidiol ar addysg bellach am y problemau yr ydym wedi siarad amdanynt heddiw.



Efallai y bydd y 2 Grŵp Trawsbleidiol yn gallu cydweithio ar hyn.



Canolfan Dydd

Dywedodd **Julian Hallett** ei fod yn bryderus iawn bod awdurdodau lleol yn bwriadu symud rhai pobl ifanc o'r ysgol i wasanaethau dydd.



Ni fyddai hyn yn deg gan y byddent yn colli allan ar addysg bellach a'r cyfle i ennill sgiliau newydd.



Canolfan Dydd

Hefyd, nid oes digon o wasanaethau dydd i oedolion ag anableddau dysgu ledled Cymru, felly i ble y byddent yn mynd?




Dywedodd **Grace Coppock** fod Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan yn gweithio ar becyn cymorth i deuluoedd.

Nod y pecyn cymorth yw helpu pan fydd pobl ifanc yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Gelwir hyn yn **gyfnod pontio**.



Bydd Sioned yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg am y problemau y soniodd y grŵp amdanynt heddiw.

5. Unrhyw fater arall, a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol



Dywedodd Sioned wrth y grŵp fod y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth wedi ymateb i lythyr y grŵp am broblemau gyda thocynnau bws.



Dywedodd y Dirprwy Weinidog y dylai pobl anabl allu defnyddio eu tocyn bws i deithio gyda rhywun arall os oes angen.



Dywedodd hefyd, os yw eu tocyn bws yn dweud y gallant deithio gyda rhywun arall, nid yw hyn yn golygu na allant deithio ar eu pen eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud.



Dywedodd y bydd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i wneud yn siŵr bod gyrwyr bysiau yn deall hyn.

Dywedodd hefyd eu bod yn cael hyfforddiant ar sut i weithio gyda phobl anabl.



Diolchodd Sioned i bawb a siaradodd yn ystod y cyfarfod.



Os oes gan unrhyw un syniadau am bethau pwysig i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, gallwch anfon neges e-bost at Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk; neu Sara Pickard: SaraE.Pickard@mencap.org.uk.



Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy gyfrwng Zoom ar 19 Mawrth 2024 am 12:15pm.



Gallwch ddod o hyd i holl agendâu'r grŵp trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma:

<https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/>

Geiriau anodd

Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Ysgrifennydd neu gyd-ysgrifennydd

Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir cyd-ysgrifenyddion pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Anghenion Dysgu Ychwanegol neu ADY yw'r enw newydd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig neu AAA yng Nghymru.

Preswyl

Mae preswyl yn golygu eich bod yn aros neu'n byw yno.

Pontio

Dyma pan fydd person ifanc yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.